**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/0752/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31 Gorffennaf 2014

Annwyl Christine,

**BIL TRAIS AR SAIL RHYWEDD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) - Y PWYLLGOR CYMUNEDAU, CYDRADDOLDEB A LLYWODRAETH LEOL - CAIS AM RAGOR O WYBODAETH**

Diolch am fy ngwahodd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 17 Gorffennaf 2014 i roi tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Yn y cyfarfod, cynigiwyd rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â chwestiwn penodol a holwyd gan Peter Black AC. Roedd y cwestiwn yn ymwneud â'r sancsiynau y gallai llys eu gorfodi ar Awdurdod perthnasol os bydd yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 16 o'r Bil ac a allai'r awdurdod gael dirwy.

Eglurodd fy swyddogion i'r Pwyllgor y byddai llys yn gorchymyn yr Awdurdod perthnasol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd ac os na chydymffurfir eto â gorchymyn y llys, gallai'r llys osod sancsiwn ar yr awdurdod perthnasol drwy achos dirmyg llys.

Eglurwyd hefyd wrth y Pwyllgor mai'r dewis olaf un fyddai dilyn y camau hyn. Nid wyf yn rhagweld y caiff cyfarwyddiadau eu defnyddio yn rheolaidd. Byddai'n well gennyf fabwysiadu agwedd fwy cydweithredol a gofyn i'r Cynghorydd Gweinidogol gynorthwyo a gweithio gydag unrhyw Awdurdod sy'n ceisio gwyro oddi wrth y canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 12 heb roi rheswm da am wneud hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Fodd bynnag, er mwyn gwneud y sefyllfa'n glir, isod ceir enghreifftiau o sut y rhagwelir y byddai'r darpariaethau canllaw yn gweithio ac eglurhad o sut byddai'r pŵer i roi cyfarwyddiadau yn gweithredu yn ymarferol.

**Enghraifft:**

- Cyhoeddir canllawiau gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o'r Bil, ac yn rhinwedd adran 14, rhaid i'r Awdurdodau perthnasol ddilyn y camau a nodir yn yn canllawiau;
- Mae Awdurdod perthnasol yn credu bod rheswm da iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau penodol o achosion neu beidio â'u dilyn o gwbl. Mae'n penderfynu ar bolisi arall ac yn cyhoeddi datganiad polisi yn hyn o beth yn amlinellu'r polisi arall a'r rhesymeg dros wyro oddi wrth y canllawiau;
- Mae'r Gweinidogion yn ystyried y polisi arall a gyhoeddwyd ac a ddilynwyd gan yr awdurdod perthnasol ac yn penderfynu nad yw'n debygol o gyfrannu at ddibenion y Bil;

**Effaith darpariaethau:**

- Dan adran 16(2) mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i gymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r canllawiau a roddwyd i'r awdurdod o dan adran 12;
- Mae adran 16(3) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd;
- Mae'r awdurdod perthnasol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd;
- Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud cais i'r llys am orchymyn gorfodi sy'n gofyn am gydymffurfio â'r cyfarwyddyd fel y nodir yn adran 16(4). Byddai'r gorchymyn gorfodi yn cynnwys hysbysiad o gosb - byddai nodi anufudd-dod yn ddirmyg llys a'r gosb fyddai carchar, dirwy neu atafaelu asedau;
- Byddai methu â chydymffurfio â thelerau'r gorchymyn gorfodi a roddwyd gan y llys yn golygu bod yr awdurdod yn dirmygu'r llys. Pan na chydymffurfir, gallai Gweinidogion Cymru wneud cais i'r llys, a mater i'r llys fyddai penderfynu pa gosb i roi i'r awdurdod perthnasol a oedd yn dirmygu.

Dyma'r opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru; fodd bynnag nid yw'n fwriad mabwysiadu'r camau hyn ac eithrio yn yr achosion mwyaf eithafol. Byddwn yn ceisio gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol, gan ddefnyddio arbenigedd y Cynghorydd Gweinidogol, i geisio datrys unrhyw broblemau. Dim ond ar ôl i bob llwybr arall fod yn aflwyddiannus y byddwn yn ystyried mynd at y llysoedd.

Rwy'n sicr y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo Aelodau i graffu ar y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drim Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych chi neu unrhyw Aelod arall unrhyw ymholiadau pellach neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch ar unrhyw agwedd.

Cofion,

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business